O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1166 (Cy. 140)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40, yr A487, yr A44 a'r A470 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Caerfyrddin, Penfro, Ceredigion a Phowys) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012

Gwnaed	*27 Ebrill 2012*
Yn dod i rym	*9 Mai 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48 a'r A40), Cefnffordd Abergwaun – Bangor (yr A487) a Chefnffordd y Drenewydd – Aberystwyth (yr A44 a'r A470) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel "y cefnffyrdd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd y tebygolrwydd y byddai perygl i'r cyhoedd yn codi o ganlyniad i dreialu symud llwyth anarferol na ellir ei rannu.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48, yr A40, yr A487, yr A44 a'r A470 (Lleoliadau Amrywiol yn Siroedd Caerfyrddin, Penfro, Ceredigion a Phowys) (Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro) 2012.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r treial sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;